FERSIWN CYNHADLEDD – 11/06/2021

**CYFRINACHOL**

# CYNLLUN MARCIO TGAU

## HAF 2022

## CYMDEITHASEG – CYDRAN 1
## C200N10-1

Edrychwch ar y Porth Rheoli Penodedigion i gael manylion am ddyddiad a lleoliad cynhadledd yr arholwyr: http://appointees.wjec.co.uk

Cofiwch ddiweddaru eich tudalen Gwrthdaro Buddiannau ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021/2022 **cyn** i chi ddechrau marcio.

© WJEC CBAC Ltd.

# TUDALEN WAG

© WJEC CBAC Ltd.

**TGAU CYMDEITHASEG**

**CYDRAN 1: DEALL PROSESAU CYMDEITHASOL**

**CYNLLUN MARCIO HAF 2022**

## Canllawiau marcio i arholwyr

### Crynodeb o’r amcanion asesu ar gyfer Cydran 1

Mae'r cwestiynau yn y papur hwn yn asesu pob un o'r tri amcan asesu – AA1, AA2 ac AA3. Mae'r amcanion asesu yn canolbwyntio ar:

- y gallu i arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau, cysyniadau, tystiolaeth a dulliau cymdeithasegol (AA1)
- y gallu i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau, cysyniadau, tystiolaeth a dulliau cymdeithasegol (AA2)
- y gallu i ddadansoddi a gwerthuso damcaniaethau, cysyniadau, tystiolaeth a dulliau cymdeithasegol er mwyn llunio dadleuon, llunio barn a thynnu casgliadau (AA3)

### Strwythur y cynllun marcio

Mewn cwestiynau tariff uchel, mae dwy ran i'r cynllun marcio:

- Grid asesu yn dangos bandiau a marciau cysylltiedig y dylid eu dyrannu i ymatebion sy'n arddangos y nodweddion y mae'r amcan(ion) asesu priodol sy'n berthnasol i'r cwestiwn yn gofyn amdanynt.

- Cynnwys dangosol y gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd yr ymateb penodol. Nid yw’r cynnwys hwn yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr sôn am yr holl ddeunydd y cyfeiriwyd ato. Dylai arholwyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth berthnasol bellach a gynigir gan ymgeiswyr.

Yr arholwyr sydd i benderfynu ar y band (lle mae mwy nag un marc mewn band) a'r marc sydd i'w roi. Mae'r wybodaeth ganlynol yn esbonio sut dylai arholwyr benderfynu ar y band a'r marc i'w roi.

### Cam 1 – Penderfynu ar y band

Gan ddechrau â'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifydd ar gyfer y band hwnnw. Os yw'r ateb yn cyd-fynd â disgrifydd y band isaf, dylai'r arholwyr symud i’r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifydd yn cyfateb i’r ateb. Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb. I grynhoi:

- Y cam cyntaf i'r arholwr yw defnyddio'r cynnwys dangosol a'r grid asesu i benderfynu ar y band cyffredinol.
- Yr ail gam yw penderfynu pa mor amlwg yw'r nodweddion y disgwylir i'r ateb yn y band hwnnw eu cynnwys.
- Yn drydydd, rhoddir marc am y cwestiwn.

Mae rhai cwestiynau tariff uwch yn targedu sawl amcan asesu. Ar gyfer y cwestiynau hyn, os yw ateb yn haeddu dyfarniad o fandiau gwahanol ar gyfer amcanion asesu gwahanol, dylai arholwyr geisio gwobrwyo'r amrywiol nodweddion a welir yn yr ymateb sy’n berthnasol i'r amcanion asesu penodol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Wrth safoni (cynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar nodweddion pob band marciau. Yna bydd yr arholwyr yn cael enghreifftiau o atebion ym mhob band marciau mae'r Uwch Arholwr wedi rhoi marciau amdano. Dylai'r arholwyr farcio'r enghreifftiau a chymharu eu marciau nhw â marciau'r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw ateb ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Atgoffir arholwyr y dylen nhw edrych eto ar yr ateb wrth gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc maen nhw'n eu rhoi yn briodol i'r ateb a roddwyd.

Mae cynnwys dangosol i'w weld hefyd ar gyfer cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau. Nid yw'r cynnwys dangosol yn gyflawn, a rhaid rhoi marciau am unrhyw bwyntiau dilys eraill. Er mwyn cyrraedd bandiau uchaf y cynllun marcio nid oes angen i ymgeisydd drafod yr holl bwyntiau sy'n cael eu crybwyll yn y cynnwys dangosol, ond rhaid iddo fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ateb yn haeddu marciau, gan nad yw'n cynnwys unrhyw beth o arwyddocâd o safbwynt y cynllun marcio, neu os nad oes ateb wedi'i roi o gwbl, ni ddylid rhoi marciau.

**Cwestiynau'n cynnwys darnau o destun**

Mae rhai cwestiynau yn cynnwys darnau o destun. Er ei bod hi'n briodol i ymgeiswyr gyfeirio at wybodaeth a ddarperir mewn darnau, ni ddylent gael marciau am ailadrodd darnau o destun yn unig.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 1**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **4** | **4** | | |

**Dewiswch y term priodol o'r blwch i gwblhau'r brawddegau isod.**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Samplu | Willis | Moeseg | Cymesur | Francis | Amrywiaeth ddiwylliannol |

Dylid rhoi un marc am bob ateb cywir

(a) Moeseg [1]

(b) Willis [1]

(c) Cymesur [1]

(ch) Amrywiaeth ddiwylliannol [1]

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 2 (a)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **2** | **2** | | |

**Disgrifiwch ystyr normau** **[2]**

Dylid rhoi un marc am ddisgrifiad sylfaenol sy'n nodi bod normau'n cyfeirio at y disgwyliadau o ran sut dylai rhywun ymddwyn mewn sefyllfa benodol.

Dylid rhoi marc ychwanegol am ddisgrifiad mwy datblygedig sy'n cyfeirio at un o'r pwyntiau isod neu enghreifftiau perthnasol:

- nid rhywbeth sy'n cael ei ysgrifennu yw norm
- cyfryngau cymdeithasoli sy'n addysgu normau
- mae normau'n wahanol mewn cymdeithasau gwahanol
- rhowch farciau am gyfeirio at enghreifftiau perthnasol o normau

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol

**Cwestiwn 2(b)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1* | *AA21a* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **1** | **1** | | |

**Nodwch un norm yn y darn uchod.** **[1]**

Dylid rhoi un marc am nodi'r un norm yn y darn:

- sut i gerdded
- sut i siarad
- sut i fwyta

Dylid rhoi 0 marciau am atebion sy'n anghywir neu'n amherthnasol neu enghreifftiau sydd heb eu cynnwys yn y darn

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 2 (c)**

| *Marciau i’w dyrannu:* | *AA1 1b* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **2** | | **2** | |

**Esboniwch un ffordd gall grwpiau cyfoedion drosglwyddo normau i'w haelodau. [2]**

Dylid rhoi un marc am adnabod ffordd gywir mae grwpiau cyfoedion yn trosglwyddo normau i'w haelodau:

- pwysau gan gyfoedion
- modelau rôl
- sancsiynau

Dylid rhoi marc ychwanegol am ddatblygu mwy ar yr esboniad neu am roi enghraifft o sut gall grwpiau cyfoedion drosglwyddo normau i'w haelodau. Gall ymgeiswyr gyfeirio at y pwyntiau isod neu enghreifftiau perthnasol eraill.

- gall grwpiau cyfoedion roi pwysau ar eu haelodau i ddilyn normau tebyg fel ffyrdd o feddwl, gwisgo, siarad ac ymddwyn
- efallai y bydd rhai unigolion mewn grwpiau cyfoedion y mae aelodau eraill yn eu parchu ac yn dilyn/copïo'r ffordd maen nhw'n ymddwyn
- gall fod sancsiynau anffurfiol gan grwpiau cyfoedion i'r sawl sy'n cydymffurfio/ddim yn cydymffurfio i normau grŵp fel cynhwysiant/allgáu
- rhowch farciau am gyfeirio at enghreifftiau priodol

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 2(ch)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2 1a* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **4** | **2** | **2** | |

**Nodwch ac esboniwch, gan roi enghreifftiau, ddwy ffordd gall plant gael eu cymdeithasoli i hunaniaeth ethnig mewn teuluoedd.** **[4]**

Mae 2 farc ar gael ar gyfer pob ffordd sy'n cael ei hesbonio a'i chymhwyso i'r cwestiwn.

Os rhoddir mwy na dwy ffordd, dylid marcio'r holl ffyrdd yn ôl y meini prawf a rhoi'r marc am y ddwy â'r marciau uchaf.

Dylid rhoi un marc am nodi un ffordd gywir mae plant yn cael eu cymdeithasoli i hunaniaeth ethnig mewn teuluoedd fel:

- addysgu ac annog plant i ddilyn eu crefydd
- modelau rôl a sancsiynau
- addysgu'r iaith
- dilyn traddodiadau, gwyliau ac arferion fel bwyd a gwisg

Dylid rhoi marc ychwanegol am esboniad mwy datblygedig o sut byddai hyn yn effeithio ar hunaniaethau ethnig neu enghreifftiau. Gall ymgeiswyr gyfeirio at y pwyntiau isod neu enghreifftiau perthnasol eraill.

- gall rhieni ymarfer y grefydd gartref a mynd â'r plant i fannau addoli
- efallai y bydd yn rhaid i blant siarad eu hiaith benodol nhw gartref a gyda'r teulu
- efallai y bydd sancsiynau os nad yw plant yn dilyn normau a gwerthoedd
- gall rhieni ddilyn traddodiadau ac arferion sy'n ymwneud â bwyd a gwisg.
- dylid rhoi marciau am enghreifftiau perthnasol

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 3 (a)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1* | *AA2 1a* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **2** | | **2** | |

**Esboniwch ystyr cyfryngau cymdeithasoli.** **[2]**

Dylid rhoi un marc am esboniad sylfaenol sy'n awgrymu mai'r cyrff sy'n trosglwyddo diwylliant i bobl yw cyfryngau cymdeithasol.

Dylid rhoi un marc arall am ddatblygiad sy'n cyfeirio at un o'r pwyntiau isod, neu bwyntiau neu enghreifftiau perthnasol eraill:

- mae cyfryngau cymdeithasoli yn cynnwys teuluoedd, grwpiau cyfoedion ac ati
- y cyfryngau cymdeithasoli sy'n cymdeithasoli plant o ran normau a gwerthoedd
- cyfryngau cymdeithasoli sy'n trosglwyddo diwylliant drwy fodelau rôl, sancsiynau ac ati
- mae cyfryngau cynradd yn cyfeirio at y teulu a'r grŵp cyfoedion ond cyfryngau eilaidd yw addysg a'r cyfryngau

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 3 (b)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1* | *AA2 1a* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **4** | | **4** | |

**Esboniwch ddwy ffordd mae cymdeithasau yn cynnal rheolaeth gymdeithasol. [4]**

Mae 2 farc ar gael ar gyfer pob ffordd sy'n cael ei hesbonio a'i chymhwyso i'r cwestiwn.

Os rhoddir mwy na dwy ffordd, dylid marcio'r holl ffyrdd yn ôl y meini prawf a rhoi'r marc am y ddwy â'r marciau uchaf.

Dylid rhoi un marc yr un am esboniad sylfaenol o ffordd gywir mae cymdeithasau'n cynnal rheolaeth gymdeithasol:

- bydd aelodau newydd o gymdeithas yn cael eu cymdeithasoli i ddiwylliant eu cymdeithas
- defnyddir sancsiynau i annog pobl i ddilyn normau neu werthoedd neu i gosbi'r bobl hynny sy'n eu torri
- bydd y cyfryngau cymdeithasoli'n cymhwyso sancsiynau anffurfiol os nad yw eu haelodau'n dilyn y normau a gwerthoedd
- bydd y llywodraeth yn defnyddio sancsiynau ffurfiol i geisio gwneud i aelodau o gymdeithas ddilyn y rheolau

Dylid rhoi marc ychwanegol yr un am esboniad mwy datblygedig neu enghraifft yn nodi pam mae hyn yn bwysig. Gall ymgeiswyr gyfeirio at y pwyntiau isod neu enghreifftiau perthnasol eraill.

- bydd cyfryngau cymdeithasoli fel teuluoedd a grwpiau cyfoedion yn addysgu normau a gwerthoedd cymdeithas i'w haelodau er mwyn i'r normau a gwerthoedd hyn fod yn rhywbeth sy'n reddfol ac yn awtomatig
- bydd cyfryngau cymdeithasoli ffurfiol fel teuluoedd a grwpiau cyfoedion yn gorfodi'r normau a gwerthoedd gan ddefnyddio sancsiynau anffurfiol fel gwobrau a chosbau, er enghraifft cynnig trît o ryw fath neu atal arian poced
- gall cyrff llywodraethol reoli cymdeithas yn ffurfiol, pobl fel yr heddlu a'r llysoedd barn i bobl sy'n torri'r rheolau. Mae hyn yn cynnwys sancsiynau ffurfiol fel arestio pobl a'u rhoi yn y carchar

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 3 (c)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1* | *AA2 1a* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **4** | | **4** | |

**Esboniwch ddau reswm pam mae ar gymdeithasau angen rheolaeth gymdeithasol. [4]**

mae 2 farc ar gael am bob rheswm sy'n cael ei esbonio a'i gymhwyso i'r cwestiwn.

Os rhoddir mwy na dau reswm, dylid marcio pob rheswm yn ôl y meini prawf a rhoi'r marc am y ddau â'r marciau uchaf.

Dylid rhoi un marc yr un am nodi rheswm cywir pam mae ar gymdeithasau angen rheolaeth gymdeithasol:

- cadw trefn mewn cymdeithas
- annog pobl i gydweithio tuag at nodau wedi'u rhannu
- atal anrhefn a fyddai'n digwydd pe byddai pawb yn dilyn eu nodau a'u ffyrdd o fyw eu hunain

Dylid rhoi marc ychwanegol yr un am esboniad mwy datblygedig pam mae angen rheolaeth gymdeithasol ar gymdeithasau. Gall ymgeiswyr gyfeirio at y pwyntiau isod neu enghreifftiau perthnasol eraill.

- heb normau a gwerthoedd a deddfau, ni fyddai pobl yn gwybod sut i ymddwyn a bydden nhw'n rhydd i wneud fel y mynnen nhw
- byddai'n amhosibl rhyngweithio ag eraill pe na byddai ffyrdd disgwyliedig o ymddwyn a nodau wedi'u rhannu yn bodoli
- os nad yw cyrff yn gorfodi'r gyfraith, efallai y bydd pobl yn mynd ati'n ddifeddwl i dorri'r gyfraith ac yn gwneud niwed i bobl eraill

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 4 (a)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **2** | **2** | | |

**Disgrifiwch ystyr teulu cnewyllol.** **[2]**

Dylid rhoi un marc am ddisgrifiad sylfaenol sy'n awgrymu bod teulu cnewyllol yn cynnwys dwy genhedlaeth: rhieni gwrywol a benywol a'u plant

Dylid rhoi marc arall am ddisgrifiad mwy datblygedig neu ddisgrifiad sy'n cyfeirio at un o'r pwyntiau isod neu enghreifftiau perthnasol eraill:

- yn aml, mae'r teulu cnewyllol yn cael ei weld fel y teulu delfrydol a theuluoedd eraill wedyn yn israddol
- mae poblogrwydd teuluoedd eraill yn tyfu

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

**Cwestiwn 4 (b)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1* | *AA2 1a* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **4** | | **4** | |

**Esboniwch pam mae rhai yn dadlau bod teuluoedd yn batriarchaidd.** **[4]**

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

| | **AA2 1a 4 marc** | |
|---|---|---|
| **BAND 2** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth sy'n berthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i roi esboniad cywir a manwl yn dweud pam mae rhai yn dadlau bod teuluoedd yn batriarchaidd. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n llawn. | **3-4** |
| **BAND 1** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth sy'n berthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio'n rhannol i esbonio pam mae rhai yn dadlau bod teuluoedd yn batriarchaidd. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n rhannol a bydd rhai safbwyntiau wedi'u hesbonio'n llai manwl nag eraill a bydd rhai gwallau. | **1-2** |
| | Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol | |

***Cynnwys dangosol***

- i ffeministiaid mae teuluoedd yn rhywbeth patriarchaidd ac mae'r menywod yn y teulu'n cael eu gormesu gan ddynion
- mae rhai pobl yn credu bod dynion yn cael mwy o fantais o fywyd teuluol ac yn dominyddu yn nhermau pŵer: gwneud penderfyniadau; rheoli arian a'r gyfran ohono ac ati

© WJEC CBAC Ltd.

- mae cyfraniad menywod i'r teulu yn fwy yn nhermau gwaith domestig, cefnogaeth emosiynol a gofal plant
- os yw'r menywod yn gweithio yna maen nhw'n gwneud hyn yn ogystal â'u dyletswyddau eraill
- mae menywod yn fwy tebygol o ddioddef camdriniaeth ddomestig
- mae plant mewn teuluoedd yn cael eu cymdeithasoli i rolau rhywedd
- rhowch farciau am gyfeirio at gymdeithasegwyr perthnasol

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 4(c)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2 1a* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **8** | **4** | **4** | |

**Esboniwch pam mae mwy o gyplau yn dewis cyd-fyw yn y DU gyfoes.** **[8]**

***Dylech chi archwilio o leiaf dau reswm yn eich ateb.***

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

Sylwer – Ni ellir rhoi mwy na Band 2 i ymateb nad yw'n rhoi cynnig ar archwilio o leiaf dau reswm.

| | **AA1 1a ac 1b 4 marc** | | **AA2 1a 4 marc** | |
|---|---|---|---|---|
| **BAND 4** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol am o leiaf dau reswm pam mae mwy o gyplau yn dewis cyd-fyw yn y DU gyfoes. Bydd tystiolaeth o iaith gymdeithasegol briodol a chyson, a gwelir disgrifiad manwl o'r cysyniadau. | **4** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth sy'n berthnasol ar gyfer dau reswm wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i roi esboniad cywir a manwl yn dweud pam mae mwy o gyplau yn dewis cyd-fyw yn y DU gyfoes. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n llawn. | **4** |
| **BAND 3** | Ateb cydlynol yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol yn bennaf, o ddau reswm pam mae mwy o gyplau yn dewis cyd-fyw yn y DU gyfoes er y bydd un ffactor yn cael ei ddisgrifio yn llai manwl na'r llall. Bydd tystiolaeth o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol yn bennaf, ond ni fyddant wedi'u cynnal drwyddi draw. | **3** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth am ddau reswm wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i roi esboniad cywir yn dweud pam mae mwy o gyplau yn dewis cyd-fyw yn y DU gyfoes. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n rhannol a bydd un o'r ffactorau hyn wedi'i esbonio'n llai manwl na'r llall. | **3** |
| **BAND 2** | Mae rhywfaint o gydlyniad i'r ateb, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol o ddau reswm yn ymwneud â pham mae mwy o gyplau yn dewis cyd-fyw yn y DU gyfoes, er bod rhai gwallau/materion amherthnasol a diffyg datblygiad a manylder, **neu** dangosir gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol, ond dim ond un ffactor yn ymwneud â pham mae mwy o gyplau yn dewis cyd-fyw yn y DU gyfoes sy'n cael ei ystyried. Bydd tystiolaeth gyfyngedig o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol heb lawer o fanylion. | **2** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth sy'n berthnasol ar gyfer dau ffactor wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio pam mae mwy o gyplau yn dewis cyd-fyw yn y DU gyfoes, ond heb lawer o ddatblygiad a rhai gwallau, **neu** un ffactor yn unig fydd wedi'i gymhwyso a'i ddefnyddio i roi esboniad cywir a manwl yn dweud pam mae mwy o gyplau yn dewis cyd-fyw yn y DU gyfoes. | **2** |
| **BAND 1** | Dim ond gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol sydd i'w gweld yn yr ateb o'r rheswm (rhesymau) pam mae mwy o gyplau yn dewis cyd-fyw yn y DU gyfoes. Bydd tystiolaeth brin, os o gwbl, o iaith a chysyniadau cymdeithasegol. | **1** | Bydd cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio pam mae mwy o gyplau yn dewis cyd-fyw yn y DU gyfoes yn gyfyngedig. Bydd unrhyw esboniad heb ei ddatblygu ac yn cynnwys gwallau. | **1** |
| | Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

***Cynnwys dangosol***

Nid yw'r cynnwys yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at yr holl ddeunydd a nodir isod. Dyma rai o’r materion i’w hystyried yn yr esboniad:

- mae'r newid yn safle menywod yn golygu y gall mwy o fenywod chwilio am yrfa ac nad ydyn nhw efallai'n teimlo erbyn hyn bod angen priodi am resymau ariannol
- efallai y bydd gan fenywod flaenoriaethau eraill fel gyrfa, yn hytrach na phriodas a theulu
- mae'n bosibl bod menywod yn ennill arian ac yn cyfrannu mwy at economi'r teulu wedi gwella eu safle yn y cartref
- mae newidiadau mewn normau wedi ei gwneud yn dderbyniol i gyplau gyd-fyw a chael plant heb briodi
- oherwydd seciwlareiddio a dirywiad crefydd mae'r rhwystrau crefyddol i gyd-fyw wedi mynd erbyn hyn
- gall cost priodasau atal pobl rhag priodi
- gall y newid mewn disgwyliadau o ran bod yn berchen ar dy annog cyplau i gynilo i gael ty
- dylid rhoi marciau am gyfeirio at astudiaethau perthnasol

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 4 (ch)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2 1a* | *AA3 1a ac 1b* |
|---|---|---|---|
| **15** | **4** | **3** | **8** |

**'Newidiadau mewn normau a gwerthoedd yw'r prif reswm dros newidiadau yn y gyfradd ysgaru.' Ydych chi'n cytuno â'r safbwynt hwn? [15]**

***Yn eich ateb dylech chi gyfeirio at newidiadau mewn normau a gwerthoedd ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill i gefnogi eich barn.***

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

| **Band** | **AA1 1a ac 1b 4 marc** | | **AA2 1a 3 marc** | | **AA3 1a ac 1b 8 marc** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **4** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol o amrywiaeth o ffactorau yn ymwneud â'r newidiadau yn y gyfradd ysgaru gan gynnwys newidiadau penodol i normau a gwerthoedd a dau ffactor arall. Bydd tystiolaeth o iaith gymdeithasegol briodol a chyson, a gwelir disgrifiad manwl o'r cysyniadau. | **4** | Nid oes marciau Band 4 ar gyfer yr amcan asesu hwn<br><br>Rhoddir 3 marc fel yn achos Band 3 | | Dadansoddiad a gwerthusiad datblygedig o bwysigrwydd cymharol amrywiaeth o ffactorau yn ymwneud â newidiadau yn y gyfradd ysgaru. Mae rhesymu cyson sy'n gydlynol, yn berthnasol, wedi'i brofi a'i strwythuro'n rhesymegol i gefnogi barn a chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **7-8** |
| **3** | Ateb cydlynol yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol yn bennaf o ffactorau sy'n ymwneud â newidiadau yn y gyfradd ysgaru, gan gynnwys newidiadau penodol i'r gyfraith, er y bydd rhai ffactorau'n cael eu disgrifio yn llai manwl nag eraill. Bydd tystiolaeth o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol yn bennaf, ond ni fyddant wedi'u cynnal drwyddi draw. | **3** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth sy'n berthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio eu heffaith ar gyfradd ysgaru yn gywir. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n dda. | **3** | Dadansoddiad a gwerthusiad da o bwysigrwydd cymharol ffactorau yn ymwneud â newidiadau yn y gyfradd ysgaru. Efallai na fydd y rhesymu'n gyson drwyddi draw ond bydd yn gydlynol ac yn berthnasol i gefnogi unrhyw farn a chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **5-6** |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 1a ac 1b 4 marc | | AA2 1a 3 marc | | AA3 1a ac 1b 8 marc | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2** | Mae rhywfaint o gydlyniad i'r ateb, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol o'r ffactor(au) yn ymwneud â newidiadau yn y gyfradd ysgaru, er bod diffyg manylder a gwallau/materion amherthnasol. Bydd tystiolaeth gyfyngedig o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol. | **2** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth sy'n berthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio eu heffaith ar gyfradd ysgaru. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n rhannol gan y bydd rhai o'r ffactorau hyn wedi'u hesbonio'n llai manwl na'r lleill a bydd gwallau. | **2** | Dadansoddiad a gwerthusiad rhannol o bwysigrwydd ffactor(au) yn ymwneud â newidiadau yn y gyfradd ysgaru. Bydd unrhyw farn neu gasgliad yn arwynebol. | **3-4** |
| **1** | Mae'r ateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol yn unig o'r ffactor(au) yn ymwneud â newidiadau yn y gyfradd ysgaru. Bydd tystiolaeth brin, os o gwbl, o iaith a chysyniadau cymdeithasegol. | **1** | Bydd y cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio'r effaith ar y gyfradd ysgaru yn gyfyngedig. Bydd unrhyw esboniad heb ei ddatblygu ac yn cynnwys gwallau. | **1** | Dadansoddiad neu werthusiad cyfyngedig yn unig, heb unrhyw farn na chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **1-2** |
| | Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol | | | | | |

Cwestiwn ymateb estynedig yw hwn, lle disgwylir i ymgeiswyr gyfuno meysydd gwahanol o wybodaeth, sgiliau a/neu ddealltwriaeth ar draws y cynnwys perthnasol o'r fanyleb. Dylent lunio a datblygu rhesymu cyson sy'n gydlynol, perthnasol, wedi'i brofi a'i strwythuro'n rhesymegol.

Dylai atebion ddangos y gallu i ddeall dadleuon cymdeithasegol, defnyddio termau ac enghreifftiau cymdeithasegol ac esbonio cysyniadau cymdeithasegol. I ennill y marciau AA3 uchaf, dylai atebion gynnig barn am y syniadau gwahanol a dod i gasgliad.

© WJEC CBAC Ltd.

***Cynnwys dangosol***

Nid yw'r cynnwys yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at yr holl ddeunydd a nodir isod. Rhoddir marciau am ddefnyddio tystiolaeth gymdeithasegol gefnogol yn effeithiol. Dyma rai o'r materion i'w hystyried:

i gefnogi'r safbwyntiau canlynol:

newidiadau mewn normau a gwerthoedd a'u cyfraniad at newidiadau yn y gyfradd ysgaru
- bellach mae ysgariad yn dderbyniol mewn cymdeithas ac nid yw'n rhywbeth y mae stigma yn perthyn iddo
- mae teuluoedd un rhiant yn fwy o'r norm erbyn hyn ac yn dderbyniol
- mae seciwlareiddio wedi arwain at ddirywiad yn arwyddocâd crefyddol priodas
- mae'r hyn sydd i'w ddisgwyl o briodas wedi newid o sicrwydd economaidd i foddhad emosiynol

trafodaeth am ffactorau eraill a'u heffaith ar gyfradd ysgaru

newidiadau yn y deddfau megis:
- y Ddeddf Diwygio Ysgariad a ganiataodd ysgariad ar sail chwalu'r berthynas yn anadferadwy
- Deddf Cymorth a Chyngor Cyfreithiol, a roddodd gymorth ariannol gyda ffioedd

mwy o annibyniaeth i fenywod:
- gan fod safle menywod wedi newid mae'n bosibl y bydd mwy o fenywod yn chwilio am yrfa ac na fyddan nhw'n teimlo bellach bod angen iddyn nhw aros yn briod am resymau ariannol
- efallai y bydd gan fenywod flaenoriaethau eraill fel gyrfa, yn hytrach na phriodas a theulu
- mae'n bosibl bod y ffaith bod menywod yn ennill arian ac yn cyfrannu fwy at yr economi teuluol wedi gwella eu safle yn y cartref ac yn golygu bod modd iddyn nhw adael y briodas
- gall budd-daliadau lles alluogi menywod i wahanu oddi wrth eu gwŷr

dadl:
- p'un a yw newidiadau mewn normau a gwerthoedd wedi arwain yn bennaf at newidiadau yn y gyfradd ysgaru neu ffactorau eraill neu gyfuniad o ffactorau
- dylid rhoi marciau am gyfeirio at gymdeithasegwyr

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 5 (a)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **2** | **2** | | |

**Disgrifiwch un ffordd gall pwysau gan gyfoedion effeithio ar gyflawniad ym myd addysg.** **[2]**

Dylid rhoi un marc am ddisgrifiad sylfaenol fel gall grwpiau cyfoedion roi pwysau ar aelodau'r grwp i wneud yn dda neu i fethu yn yr ysgol.

Dylid rhoi marc ychwanegol am ddisgrifiad mwy datblygedig o sut gall hyn effeithio ar gyflawniad sy'n cyfeirio at un o'r pwyntiau isod neu enghreifftiau perthnasol eraill:

- gall y grŵp cyfoedion annog aelodau i fod o blaid yr ysgol ac i gydymffurfio â'r rheolau a'r gweithdrefnau ac mae hynny'n fwy tebygol o arwain at lwyddiant
- gall grwpiau cyfoedion annog aelodau i ragori mewn chwaraeon
- gall y grŵp cyfoedion roi pwysau ar aelodau i wrthryfela yn erbyn yr ysgol ac i ffurfio diwylliannau gwrth-ysgol
- dylid rhoi marciau am gyfeirio at ddamcaniaeth/cymdeithasegwyr perthnasol

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 5 (b)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **5** | **5** | | |

**Amlinellwch pam mae rhai'n dadlau bod y cwricwlwm cudd yn bwysig. [5]**

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

| **Band** | **AA1 5 marc** | |
|---|---|---|
| **3** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol o pam mae rhai'n dadlau bod y cwricwlwm cudd yn bwysig. Bydd tystiolaeth o iaith gymdeithasegol briodol a chyson, a gwelir disgrifiad manwl o'r cysyniadau. | **4-5** |
| **2** | Mae rhywfaint o gydlyniad i'r ateb, sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol o pam mae rhai'n dadlau bod y cwricwlwm cudd yn bwysig, er bod rhai gwallau/materion amherthnasol. Bydd tystiolaeth o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol yn bennaf, ond ni fyddant wedi'u cynnal drwyddi draw. | **2-3** |
| **1** | Dim ond gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol sydd i'w weld yn yr ateb o pam mae rhai'n dadlau bod y cwricwlwm cudd yn bwysig, ac mae rhai gwallau a diffyg dealltwriaeth yn gallu bod yn nodweddion o hynny. Bydd tystiolaeth brin, os o gwbl, o iaith a chysyniadau cymdeithasegol. | **1** |
| | Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol | |

***Cynnwys dangosol***

- Mae'r cwricwlwm cudd yn ymwneud â'r pethau mae'r ysgol yn eu haddysgu i chi sy'n cael eu haddysgu'n anuniongyrchol, e.e. bod yn brydlon, gwneud fel mae rhywun yn dweud wrthych chi
- Addysgu normau a gwerthoedd gan gynnwys cwrteisi mewn modd cynnil
- Mae'r cwricwlwm cudd yn cynnwys dysgu bod pobl yn anghyfartal a bod hierarchaeth pŵer yn bodoli. Byddai Marcswyr yn ystyried bod hyn yn addysgu'r dosbarth gweithiol i dderbyn eu lle.
- Mae swyddogaethwyr yn ystyried y cwricwlwm cudd yn rhywbeth cadarnhaol gan greu consensws gwerthoedd a gweithwyr i helpu'r economi
- Byddai ffeministiaid yn ystyried y cwricwlwm cudd yn bynciau rhyweddol a thra-arglwyddiaeth gwrywod mewn rolau allweddol sy'n atgyfnerthu patriarchaeth
- Yn wahanol i'r cwricwlwm ffurfiol.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 5 (c)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2 1a* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **8** | **4** | **4** | |

**Esboniwch, gan ddefnyddio enghreifftiau, sut gall isddiwylliannau gwrth-ysgol effeithio ar gyflawniad ym myd addysg. [8]**

***Dylech chi archwilio o leiaf dwy ffordd yn eich ateb***

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

Sylwer – Ni ellir rhoi mwy na Band 2 i ymateb nad yw'n rhoi cynnig ar archwilio o leiaf dau reswm.

| | **AA1 1a ac 1b 4 marc** | | **AA2 1a 4 marc** | |
|---|---|---|---|---|
| **BAND 4** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol o ddwy ffordd o leiaf y gall isddiwylliannau gwrth-ysgol effeithio ar gyflawniad ym myd addysg. Bydd tystiolaeth o iaith gymdeithasegol briodol a chyson, a gwelir disgrifiad manwl o'r cysyniadau. | **4** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth sy'n berthnasol am ddwy ffordd wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i roi esboniad cywir a manwl am sut gallai isddiwylliannau gwrth-ysgol effeithio ar gyflawniad ym myd addysg. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n llawn. | **4** |
| **BAND 3** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol yn bennaf o ddwy ffordd y gall isddiwylliannau gwrth-ysgol effeithio ar gyflawniad ym myd addysg, er y bydd un ffordd yn cael ei disgrifio yn llai manwl na'r llall. Bydd tystiolaeth o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol yn bennaf, ond ni fyddant wedi'u cynnal drwyddi draw. | **3** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth sy'n berthnasol ar gyfer dwy ffordd wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i roi esboniad cywir a manwl am sut gallai isddiwylliannau gwrth-ysgol effeithio ar gyflawniad ym myd addysg. Bydd yr esboniad yn rhannol ddatblygedig gan y bydd un o'r ffyrdd hyn wedi'i hesbonio'n llai manwl na'r llall. | **3** |
| **BAND 2** | Mae rhywfaint o gydlyniad yn perthyn i'r ateb, sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol o ddwy ffordd y gall isddiwylliannau gwrth-ysgol effeithio ar gyflawniad ym myd addysg, er bod rhai gwallau/materion amherthnasol, **neu** dangosir gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n fanwl a pherthnasol ond dim ond un ffordd a nodir sut gall isddiwylliannau gwrth-ysgol effeithio ar gyflawniad ym myd addysg. Bydd tystiolaeth gyfyngedig o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol heb lawer o fanylion. | **2** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth sy'n berthnasol ar gyfer dwy ffordd wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i roi esboniad am sut gallai isddiwylliannau gwrth-ysgol effeithio ar gyflawniad ym myd addysg. Bydd rhywfaint o ddatblygiad yn yr esboniad o'r ddwy ffordd hyn gyda manylion cyfyngedig a rhai gwallau, **neu** un ffordd yn unig sydd wedi'i chymhwyso a'i defnyddio i roi esboniad cywir a manwl am sut gallai isddiwylliannau gwrth-ysgol effeithio ar gyflawniad ym myd addysg. | **2** |
| **BAND 1** | Dim ond gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol sydd i'w weld yn yr ateb o'r ffordd (ffyrdd) gall effeithio ar gyflawniad ym myd addysg. Bydd tystiolaeth brin, os o gwbl, o iaith a chysyniadau cymdeithasegol. | **1** | Bydd y cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio sut gall isddiwylliannau gwrth-ysgol effeithio ar gyflawniad ym myd addysg yn gyfyngedig. Bydd unrhyw esboniad heb ei ddatblygu ac yn cynnwys gwallau. | **1** |
| | Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

*Cynnwys dangosol*

Nid yw'r cynnwys yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at yr holl ddeunydd a nodir isod. Dyma rai o'r materion i'w hystyried yn yr esboniad:

- gall isddiwylliannau gwrth-ysgol arwain at fethu yn yr ysgol gan fod disgyblion yn gwrthod nodau'r ysgol ac yn eu disodli â'u nodau eu hunain. Gall hyn gynnwys chwarae'n wirion, achosi trafferth ac amharu ar y dosbarth ac ati.
- gall isddiwylliannau gwrth-ysgol fod yn ganlyniad labelu plant. Caiff myfyrwyr eu labelu fel methiant ac nid oes ganddyn nhw statws. Efallai y byddant yn gwrthod yr ysgol yn y pendraw ac yn ymuno ag isddiwylliannau gwrth-ysgol gan ennill statws ymhlith eu ffrindiau. O wneud hynny, byddant yn cyflawni'r label
- fel arall, gall isddiwylliannau gwrth-ysgol fod yn ganlyniad gwrthod yr ysgol gan ddisgyblion gan eu bod yn gweld drwy'r system ac yn sylweddoli nad yw'n bosibl i bawb lwyddo. Felly, maen nhw'n dewis gwrthod gwybodaeth ac yn dewis chwarae'n wirion a mwynhau
- dylid rhoi marciau am gyfeirio at gymdeithasegwyr perthnasol fel Hargreaves; Lacey: Willis

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 5 (ch)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2 1a* | *AA3 1a ac 1b* |
|---|---|---|---|
| **15** | **4** | **3** | **8** |

**'Ffactorau diwylliannol yw'r prif resymau pam mae rhai plant o'r dosbarth gweithiol yn tangyflawni ym myd addysg.' Ydych chi'n cytuno â'r safbwynt hwn? [15]**

***Yn eich ateb, dylech chi gyfeirio at ffactorau diwylliannol ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill sy'n cefnogi eich barn.***

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

| | **AA1 1a ac 1b 4 marc** | | **AA2 1a 3 marc** | | **AA3 1a ac 1b 8 marc** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BAND 4** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol o amrywiaeth o ffactorau yn ymwneud â thangyflawni gan y dosbarth gweithiol ym myd addysg gan gynnwys ffactorau diwylliannol a dau ffactor arall. Bydd tystiolaeth o iaith gymdeithasegol briodol a chyson, a gwelir disgrifiad manwl o'r cysyniadau. | **4** | Nid oes marciau Band 4 ar gyfer yr amcan asesu hwn<br><br>Rhoddir 3 marc fel yn achos Band 3 | | Dadansoddiad a gwerthusiad datblygedig o bwysigrwydd cymharol amrywiaeth o ffactorau yn ymwneud â thangyflawni gan y dosbarth gweithiol. Mae rhesymu cyson sy'n gydlynol, yn berthnasol, wedi'i brofi a'i strwythuro'n rhesymegol i gefnogi barn a chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **7-8** |
| **BAND 3** | Ateb cydlynol yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol yn bennaf o ffactorau yn ymwneud â thangyflawni gan y dosbarth gweithiol ym myd addysg gan gynnwys ffactorau diwylliannol, er y bydd rhai ffactorau'n cael eu disgrifio yn llai manwl nag eraill. Bydd tystiolaeth o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol yn bennaf, ond ni fyddant wedi'u cynnal drwyddi draw. | **3** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth sy'n berthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i roi esboniad cywir am eu heffaith ar dangyflawniad dosbarth gweithiol. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n dda. | **3** | Dadansoddiad a gwerthusiad da o bwysigrwydd cymharol ffactorau yn ymwneud â thangyflawni gan y dosbarth gweithiol yn y byd addysg. Efallai na fydd y rhesymu'n gyson drwyddi draw ond bydd yn gydlynol ac yn berthnasol i gefnogi unrhyw farn a chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **5-6** |

© WJEC CBAC Ltd.

| | AA1 1a ac 1b 4 marc | | AA2 1a 3 marc | | AA3 1a ac 1b 8 marc | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BAND 2** | Mae rhywfaint o gydlyniad i'r ateb, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol o'r ffactor(au) yn ymwneud â thangyflawni gan y dosbarth gweithiol yn y byd addysg, er bod diffyg manylion a gwallau/materion amherthnasol. Bydd tystiolaeth gyfyngedig o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol. | **2** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth sy'n berthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i roi esboniad am eu heffaith ar dangyflawni gan y dosbarth gweithiol. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n rhannol gan y bydd rhai o'r ffactorau hyn wedi'u hesbonio'n llai manwl na'r lleill a bydd gwallau. | **2** | Dadansoddiad a gwerthusiad rhannol o bwysigrwydd y ffactor(au) sy'n gysylltiedig â thangyflawni gan y dosbarth gweithiol yn y byd addysg. Bydd unrhyw farn neu gasgliad yn arwynebol. | **3-4** |
| **BAND 1** | Mae'r ateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol yn unig o'r ffactor(au) yn ymwneud â thangyflawni gan y dosbarth gweithiol yn y byd addysg. Bydd tystiolaeth brin, os o gwbl, o iaith a chysyniadau cymdeithasegol. | **1** | Bydd y cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio'r effaith ar dangyflawni gan y dosbarth gweithiol yn gyfyngedig. Bydd unrhyw esboniad heb ei ddatblygu ac yn cynnwys gwallau. | **1** | Dadansoddiad neu werthusiad cyfyngedig yn unig, heb unrhyw farn na chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **1-2** |
| | Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol | | | | | |

Cwestiwn ymateb estynedig yw hwn, lle disgwylir i ymgeiswyr gyfuno meysydd gwahanol o wybodaeth, sgiliau a/neu ddealltwriaeth ar draws y cynnwys perthnasol o'r fanyleb. Dylent lunio a datblygu rhesymu cyson sy'n gydlynol, perthnasol, wedi'i brofi a'i strwythuro'n rhesymegol.

Dylai atebion ddangos y gallu i ddeall dadleuon cymdeithasegol, defnyddio termau ac enghreifftiau cymdeithasegol ac esbonio cysyniadau cymdeithasegol. I ennill y marciau AA3 uchaf, dylai atebion gynnig barn am y syniadau gwahanol a dod i gasgliad.

© WJEC CBAC Ltd.

*Cynnwys dangosol*

Nid yw'r cynnwys yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at yr holl ddeunydd a nodir isod. Rhoddir marciau am ddefnyddio tystiolaeth gymdeithasegol gefnogol yn effeithiol. Dyma rai o’r materion i’w hystyried:

- ffactorau diwylliannol
  - sgiliau iaith: mae faint o amser sy'n cael ei dreulio'n darllen yn amrywio mewn cartrefi: mynediad at lyfrau; codau iaith
  - anogaeth gan rieni a dyheadau rhieni mae'n bosibl y bydd rhieni dosbarth canol yn ymwneud mwy â'r ysgolion
  - mae plant y dosbarthiadau uwch a chanol yn tueddu i fod â'r un gwerthoedd, codau iaith â'r ysgol a gallen nhw roi mwy o anogaeth i lwyddo
  - fodd bynnag, gall damcaniaeth amddifadedd diwylliannol awgrymu bod y diwylliant dosbarth gweithiol yn annigonol a beio'r dosbarth gweithiol am eu methiant
  - cyfalaf diwylliannol a'r gallu i ddarparu profiadau diwylliannol ar gyfer plant
  - cyfalaf cymdeithasol a'r gallu i ddeall sut mae'r system ysgol 'yn gweithio' ac i weithio'r ffordd drwy ysgolion a chael mynediad at yr ysgol o ddewis

ffactorau amgen

- ffactorau materol:
  - tlodi a diffyg arian ar gyfer bwyd, deunyddiau, mynediad i'r rhyngrwyd yn y cartref, addysg yn y cartref
  - cost addysg
  - efallai na fydd rhai disgyblion yn byw mewn tai digonol oherwydd tlodi
  - bydd gan rieni'r dosbarthiadau uwch a chanol arian i'w wario i anfon plant i ysgolion preifat neu'n gallu ffordd teithio i fynd i ysgolion 'gwell'
  - gall plant y dosbarthiadau uwch a chanol fforddio prynu tai mewn ardaloedd lle mae'r ysgolion mwyaf poblogaidd

- labelu plant mewn addysg:
  - labelu disgyblion/grwpiau ethnig/bechgyn neu ferched yn negyddol
  - gall hyn arwain at broffwydoliaeth hunangyflawnol a ffurfio isddiwylliannau gwrth-ysgol
  - gwaith Hargreaves a Ball ar broffwydoliaeth hunan-gyflawnol

- diwylliant yr ysgol:
  - p'un a yw'r ethos yn yr ysgol yn un dosbarth canol
  - y cwricwlwm: Diane Reay: cwricwlwm dosbarth canol

- trafodaeth am ffactorau eraill fel anghydraddoldeb rhwng ysgolion. Efallai bydd asesiad o'r gwahaniaethau mewn ysgolion ac ardaloedd dalgylch
- cyfeirnodi syniadau ac ymchwil gan gyfeirio at ddosbarth, rhywedd ac/neu ethnigrwydd

dadl:

- p'un a yw ffactorau diwylliannol y prif ddylanwad ar dangyflawni gan y dosbarth gweithiol neu ffactorau eraill neu gyfuniad o ffactorau

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 6 (a)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **2** | **2** | | |

**Disgrifiwch ystyr cynrychiadol.** **[2]**

Rhowch 1 marc am ddisgrifiad sylfaenol sy'n awgrymu bod cynrychiadol yn cyfeirio at gymysgedd o bobl yn yr astudiaeth

Dylid rhoi marc arall am ddatblygiad sy'n cyfeirio at un o'r pwyntiau isod neu enghreifftiau perthnasol eraill:

- dylai'r cymysgedd pobl fod yn debyg i'r boblogaeth darged
- defnyddir technegau samplu i gael sampl cynrychiadol
- os yw'r ymchwil yn gynrychiadol, gellir cyffredinoli ynghylch y boblogaeth darged

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol

**Cwestiwn 6 (b)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1* | *AA2 1b* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **4** | | **4** | |

**Esboniwch ddwy o fanteision defnyddio holiaduron ar gyfer yr ymchwil hwn.** **[4]**

Mae 2 farc ar gael am bob mantais sy'n cael ei hesbonio a'i chymhwyso i'r cwestiwn.

Os rhoddir mwy na dwy fantais, dylid marcio pob mantais yn ôl y meini prawf a rhoi'r marc am y ddau â'r marciau uchaf.

Dylid rhoi 1 marc yr un am esboniad sylfaenol am un o fanteision holiadur fel y canlynol neu ffactorau perthnasol eraill:

- gellir defnyddio holiaduron ar gyfer grŵp mwy o bobl
- gellir defnyddio holiaduron i gael data ystadegol a meintiol
- mae holiaduron yn ddienw felly mae'n bosibl y bydd hynny'n annog pobl i ddweud y gwir

Dylid rhoi 2 farc yr un am esboniad mwy datblygedig wedi'i gymhwyso i'r cwestiwn fel:

- mae'n eithaf rhad i gynhyrchu a dosbarthu holiaduron felly maen nhw'n gallu cyrraedd grŵp mwy o bobl na dulliau eraill
- cwestiynau caeedig sy'n cael eu gofyn yn bennaf mewn holiaduron felly mae'n bosibl defnyddio data ystadegol i nodi patrymau a thueddiadau
- nid oes unrhyw enwau'n cael eu cynnwys ar holiaduron felly gall hynny annog pobl i ddatgelu gwybodaeth sensitif sy'n fwy dilys
- dylid rhoi marciau am gyfeirio at newid hinsawdd

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 6 (c)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2 1b* | *AA3 1a ac 1b* |
|---|---|---|---|
| **12** | **4** | **4** | **4** |

**Trafodwch gryfderau a gwendidau defnyddio cyfweliadau anstrwythuredig mewn ymchwil. [12]**

***Dylech chi archwilio o leiaf dau gryfder a dau wendid yn eich ateb.***

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

| | **AA1 1a ac 1b 4 marc** | | **AA2 1b 4 marc** | | **AA3 1a ac 1b 4 marc** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BAND 4** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol am o leiaf dau gryfder a dau wendid mewn perthynas â defnyddio cyfweliadau anstrwythuredig mewn ymchwil. Bydd tystiolaeth o iaith gymdeithasegol briodol a chyson, a gwelir disgrifiad manwl o'r cysyniadau. | **4** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth/ dulliau sy'n berthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i roi esboniad cywir a manwl am eu heffaith ar gryfderau a gwendidau defnyddio cyfweliadau anstrwythuredig mewn ymchwil. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n llawn. | **4** | Dadansoddiad a gwerthusiad datblygedig o gryfderau a gwendidau defnyddio cyfweliadau anstrwythuredig mewn ymchwil. Mae rhesymu cyson sy'n gydlynol, perthnasol, wedi'i brofi a'i strwythuro'n rhesymegol i gefnogi barn a chasgliad yn gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **4** |
| **BAND 3** | Ateb cydlynol yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol yn bennaf o gryfderau a gwendidau defnyddio cyfweliadau anstrwythuredig mewn ymchwil, er y bydd rhai'n cael eu disgrifio yn llai manwl nag eraill. Bydd tystiolaeth o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol yn bennaf, ond ni fyddant wedi'u cynnal drwyddi draw. | **3** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth/ dulliau sy'n berthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i roi esboniad cywir am eu heffaith ar gryfderau a gwendidau defnyddio cyfweliadau anstrwythuredig mewn ymchwil. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n rhannol a bydd rhai o'r rhain wedi'u hesbonio'n llai manwl na'r lleill. | **3** | Dadansoddiad a gwerthusiad da o gryfderau a gwendidau defnyddio cyfweliadau anstrwythuredig mewn ymchwil. Efallai na fydd y rhesymu wedi'i gynnal drwyddi draw ond bydd yn gydlynol ac yn berthnasol i gefnogi barn a chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **3** |

© WJEC CBAC Ltd.

| | AA1 1a ac 1b 4 marc | | AA2 1b 4 marc | | AA3 1a ac 1b 4 marc | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BAND 2** | Mae rhywfaint o gydlyniad i'r ateb, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol o gryfderau a gwendidau defnyddio cyfweliadau anstrwythuredig mewn ymchwil, er bod diffyg manylion a gwallau/materion amherthnasol. Bydd tystiolaeth gyfyngedig o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol heb lawer o fanylion. | **2** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth/ dulliau sy'n berthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio eu heffaith ar gryfderau a gwendidau defnyddio cyfweliadau anstrwythuredig mewn ymchwil. Bydd rhywfaint o ddatblygiad yn yr esboniad ond gyda manylion cyfyngedig a gwallau. | **2** | Dadansoddiad a gwerthusiad rhannol o gryfderau a/neu wendidau defnyddio cyfweliadau anstrwythuredig mewn ymchwil. Bydd unrhyw farn neu gasgliad yn arwynebol. | **2** |
| **BAND 1** | Dim ond gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol sydd i'w gweld yn yr ateb o gryfder(au) a/neu wendid(au) defnyddio cyfweliadau anstrwythuredig mewn ymchwil. Bydd tystiolaeth brin, os o gwbl, o iaith a chysyniadau cymdeithasegol. | **1** | Bydd y cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio cryfderau a gwendidau defnyddio cyfweliadau anstrwythuredig mewn ymchwil yn gyfyngedig. Bydd unrhyw esboniad heb ei ddatblygu ac yn cynnwys gwallau. | **1** | Dadansoddiad neu werthusiad cyfyngedig yn unig, heb unrhyw farn na chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **1** |
| | Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol | | | | | |

Dylai atebion ddangos y gallu i ddeall dadleuon cymdeithasegol, defnyddio termau ac enghreifftiau cymdeithasegol ac esbonio cysyniadau cymdeithasegol. I ennill y marciau AA3 uchaf, dylai atebion gynnig barn am ddefnyddioldeb holiaduron a dod i gasgliad.

© WJEC CBAC Ltd.

***Cynnwys dangosol***

Nid yw'r cynnwys yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at yr holl ddeunydd a nodir isod. Rhoddir marciau am ddefnyddio tystiolaeth gymdeithasegol gefnogol yn effeithiol. Dyma rai o’r materion i’w hystyried wrth lunio dadl:

Cyfweliadau anstrwythuredig

o ran cryfderau
- gall y cyfwelydd sefydlu cydberthynas â'r cyfwelai, ac mae hynny'n gwneud y cyfweliad yn un mwy dilys
- mae'n fwy hyblyg a gall y cyfwelai addasu'r cyfweliad wrth fynd ymlaen
- mae cyfeiriad y cyfweliad dan ddylanwad y cyfwelai sydd â mwy o ryddid i ateb yn ei eiriau ei hun, ac mae hynny'n gwneud y cyfweliad yn un mwy dilys
- mae'r dull hwn yn fwy addas ar gyfer materion sensitif

o ran gwendidau
- efallai bydd tuedd y cyfwelydd sy'n golygu bod nodweddion y cyfwelydd yn dylanwadu ar y cyfwelai
- mae'n anodd cynhyrchu data meintiol a nodi patrymau a thueddiadau
- mae'n mynd yn ddrud i ddefnyddio a hyfforddi cyfwelwyr felly gall hyn leihau nifer y cyfweliadau, a bydd hynny'n effeithio ar gynrychioldeb

Dylid rhoi marciau am gymharu â dulliau ymchwil eraill gan gynnwys cyfweliadau strwythuredig.

Cyfweliadau Strwythuredig

O ran cryfderau

- mae cyfwelydd yn bresennol i ateb cwestiynau ac esbonio lle bo angen
- mae cyfwelydd yn bresennol i lenwi'r atebion
- mae cyfweliadau strwythuredig yn cynhyrchu data meintiol y gellir eu defnyddio i ddarganfod patrymau a thueddiadau
- gellir eu defnyddio i greu ystadegau a graffiau felly mae patrymau/tueddiadau yn hawdd eu hadnabod
- mae ymatebwyr yn ateb yr un cwestiynau felly mae modd cymharu'r holl atebion
- ni ddylent gymryd cyhyd â chyfweliadau heb strwythur felly gellir cyfweld mwy o bobl gan gynyddu'r cynrychioldeb

o ran gwendidau

- efallai bydd cyfweliadau strwythuredig yn isel o ran eu dilysrwydd gan nad ydynt yn galluogi ymatebwyr i esbonio eu hatebion yn fanwl
- nid yw data meintiol yn rhoi darlun o'r 'hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd'
- hwyrach y bydd effaith cyfwelydd o hyd; gallai ymatebwyr roi atebion gwahanol i gyfwelwyr gwahanol yn dibynnu ar eu nodweddion personol
- mae angen i gyfwelwyr fod wedi'u hyfforddi ac maen nhw'n ddrud



© WJEC CBAC Ltd.